**EITEM AR YR AGENDA: 13**

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**
**PANEL GWEITHREDOL**

**9fed Mai 2011**

# YMGYNGHORIAD AR STRATEGAETH CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH Y GWASANAETHAU TÂN AC ACHUB CYMREIG

**Adroddiad gan Ruth Simmons, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol**

## Pwrpas yr Adroddiad

1 Rhoi manylion ar drefniadau ymgynghori ar gyfer Strategaeth Cydraddoldeb ac Amrywiaeth i'r Gwasanaeth Tân ac Achub arfaethedig Llywodraeth Cynulliad Cymru 2011-16.

2 Awgrymu dull o ddrafftio ymateb yr Awdurdodau Tân i'r ymgynghoriad.

## Cefndir

3 Mae'r strategaeth ddrafft wedi cael ei datblygu ar y cyd ar gyfer Cymru gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, Cymdeithas y Prif Swyddogion Tân, Cymdeithas Llywodraeth Leol a swyddogion Cydraddoldeb ac Amrywiaeth y Gwasanaethau Tân ac Achub.

4 Cynhyrchwyd y strategaeth gyda gwahanol sefydliadau gan gynnwys Bwrdd yr Iaith Gymraeg, Undeb y Brigadau Tân, Unison, Unite the Union, Cymdeithas y Prif Swyddogion, Stonewall Cymru, Rhwydweithio Merched yn y Gwasanaeth Tân a Chymdeithas y Diffoddwyr Tân Anabl.

5 Pwrpas yr ymgynghoriad yw edrych am farnau ystod ehangach o bartneriaid, sefydliadau â buddiannau ac unigolion.

**Gwybodaeth**

6 Mae'r Strategaeth wedi cael ei chynllunio i gwrdd ag anghenion cyfreithiol osodwyd yn Neddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus 2011. Mae'n uchelgais benodol gan awduron y Strategaeth i greu Gwasanaeth Tân ac Achub cynhwysol sy'n gwasanaethu pob cymuned yn gyfartal ac i'r safonau uchaf.

7 Argymhellir bydd angen gweithredu pedair ardal flaenllaw, sy'n gysylltiedig â'r Gwerthoedd Craidd a'r Fframwaith Gwella Cydraddoldeb. Dyma'r pedair ardal;

- Arweinyddiaeth ac Ymrwymiad Trefniadol
- Canolbwyntio ar Ymgysylltu gyda Dinasyddion
- Moderneiddio Gweithlu a Chyfarpar
- Cynhyrchu Canlyniadau - Darparu Gwasanaeth Effeithiol a Rheoli Perfformiad.

8 Does yn ddim bwriad creu prosesau newydd neu ar wahân a bydd yr angen am gynllunio gweithredu, monitro ac adrodd yn ôl ar yr holl feysydd amrywiaeth yn adeiladu ar ddyletswyddau statudol blaenorol. Bydd cynnydd yn cael ei adrodd drwy Gynllun Gwella blynyddol y Gwasanaeth Tân ac Achub. Bydd y strategaeth yn cael ei hadolygu yn 2016.

9 Mae'r cyfrifoldeb am gyflawni yn erbyn y Strategaeth ar dair lefel:

Cenedlaethol – Llywodraeth Cynulliad Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Gymreig, Cymdeithas y Prif Swyddogion a Chyrff Cynrychioli.

Lleol – Aelodau o bob Awdurdod Tân, Prif Swyddog Tân, uwch weithwyr a Chyrff Cynrychioli.

Gweithwyr unigol y Gwasanaeth Tân ac Achub.

10 Byddai darlun o'r cyfrifoldebau o dan Canlyniad Arweinyddiaeth 1 ac Ymrwymiad Sefydliad er enghraifft yn golygu:

### Lefel Genedlaethol

10.1 Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymdrechu i sicrhau cyfeiriad clir i gydraddoldeb, amrywiaeth a thegwch yn y Gwasanaeth Tân ac Achub.

10.2 Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru ar y cyd gyda Chymdeithas y Prif Swyddog Tân a CLlLC yn ymdrechu i sicrhau fod Hyrwyddwr cenedlaethol yn cael ei enwi a'i gefnogi wrth greu rhwydwaith mewnol i gyflwyno'r Strategaeth yng Nghymru.

### Lefel Leol

10.3 Bydd yr Awdurdodau Tân ac Achub yn ymdrechu i brif ffrydio cydraddoldeb drwy fusnes craidd, Cynlluniau Gwella a phrosesau cynllunio, gan gyhoeddi cynnydd yn flynyddol.

### Lefel Unigol

10.4 Bydd aelodau o staff y Gwasanaethau Tân ac Achub yn ymdrechu i drin eraill gyda pharch yn unol gyda gwerthoedd craidd.

### Canlyniadau

10.5 Bydd pawb, o Aelodau a Phrif Swyddogion i'r aelodau iau o staff yn ymrwymo i gydraddoldeb, amrywiaeth a thegwch ac yn deall beth sydd eu hangen ganddynt.

11 Mae'r Strategaeth yn nodi rôl y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, sefydlwyd o dan ddarpariaethau Deddf Cydraddoldeb 2010. Mae gan y Comisiwn bwerau i orfodi deddfwriaeth ac annog a hyrwyddo cydraddoldeb i bawb. Mae torri'r ddeddfwriaeth yn gallu arwain ar ddirwyon arwyddocaol.

## Argymhellion

12 Fod Aelodau'n nodi cynnwys yr adroddiad ac yn rhoi cymeradwyaeth i'r Prif Swyddog Tân, ar y cyd gyda'r Cadeirydd i ymateb i'r ymgynghoriad ar ran yr Awdurdod gan ystyried fod y dyddiad cau'r 20fed o Fai 2011.